

FFURFLEN YMATEB I YMGYNGHORIAD

Dylunio yn y Broses Gynllunio

Rydym yn awyddus ichi fynegi barn ynghylch sut y gallwn gefnogi'n polisi cynllunio cenedlaethol ar ddylunio, a hefyd fynd ati drwy'r system gynllunio i hwyluso dylunio da.

Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn **16 Ionawr 2015**

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad.

Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau y byddwn yn eu cyhoeddi, ticiwch yma

Os nad ydych am i'ch ymateb gael ei gynnwys mewn unrhyw ddogfennau y byddwn yn eu cyhoeddi, ticiwch yma

FFURFLEN YMATEB I YMGYNGHORIAD

Dylunio yn y Broses Gynllunio (Ymgynghoriad)

Dyddiad: 6 Hydref 2014 - 16 Ionawr 2015

Enw	Rhian Jardine (Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy)	
Sefydliad	Cyfoeth Naturiol Cymru	
Cyfeiriad	Tŷ Cambria 29 Heol Casnewydd CAERDYDD CF24 0TP	
Cyfeiriad e-bost	Rhian.Jardine@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk	
Rhif ffôn	0300 065 3659	
Math <i>(dewiswch un o'r rhain)</i>	Busnes	<input type="checkbox"/>
	Awdurdod Cynllunio Lleol	<input type="checkbox"/>
	Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliad Arall yn y Sector Cyhoeddus	x
	Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant	<input type="checkbox"/>
	Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, sefydliadau cydweithredol, mentrau, sefydliadau crefyddol, sefydliadau di-elw)	<input type="checkbox"/>
	Arall (grwpiau eraill heb eu rhestru uchod)	<input type="checkbox"/>

C1	Ansawdd Dylunio	X
	A yw'r system gynllunio'n cyflawni pum amcan allweddol dylunio da mewn modd effeithiol?	
	Ydy	
	Dim un o'r rhain	X
	Nac ydy	

C1	Sylwadau Pellach
<p>Yn ein barn ni, mae angen i'r pum amcan allweddol sy'n ymwneud â dylunio da gael eu hintegreiddio'n fwy systematig drwy gydol y broses o lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu, er mwyn helpu i sicrhau bod nifer o fanteision yn deillio o gynnig datblygu sy'n adlewyrchu pob un o'r pum amcan sy'n ymwneud â dylunio da.</p> <p>Mae'r newidiadau i'r system gynllunio yng Nghymru, ynghyd â rôl y Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio a Chomisiwn Dylunio Cymru, yn cynnig cyfle i gyflawni'r nod hwn yn y dyfodol.</p> <p>At hynny, mae gofyn sicrhau bod y system gynllunio mewn sefyllfa i ystyried yr angen i fynd i'r afael ag anghenion hirdymor Cymru, fel y nodir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a mynd i'r afael â heriau allweddol mewn modd integredig, sef y newid yn yr hinsawdd, creu swyddi, defnyddio adnoddau'n effeithlon a rheoli adnoddau naturiol, colli bioamrywiaeth, sicrhau diogelwch ac effeithlonrwydd ynni ac ymdrin â phoblogaeth sy'n heneiddio.</p>	

C2	Cynlluniau Datblygu Lleol	X
	A ydych yn cytuno y byddai polisi rheoli datblygu cenedlaethol ar ddylunio yn beth buddiol?	
	Ydw	
	Dim un o'r rhain	X
	Nac ydw	

C2	Sylwadau Pellach
<p>Gall polisi rheoli datblygu cenedlaethol ar ddylunio helpu i sicrhau cysondeb yn y modd y caiff egwyddorion dylunio da eu hintegreiddio â'r broses o baratoi cynlluniau ac o wneud penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu ledled Cymru, gan gyflawni'n effeithiol y pum amcan allweddol sy'n ymwneud â dylunio da.</p>	

Er mai gwlad gymharol fach yw Cymru, mae ei chymeriad yn amrywiol tu hwnt. Er mwyn helpu i sicrhau bod polisiau a phrosesau gwneud penderfyniadau'n adlewyrchu hynodrwydd ardaloedd wrth weithredu polisi rheoli datblygu cenedlaethol ar ddylunio, mae'n bwysig bod cynlluniau datblygu a phrosesau gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu'n cael eu seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn. Gall Map Cymeriad Tirwedd Rhanbarthol Cyfoeth Naturiol Cymru, ei Asesiad Morweddau a'i system wybodaeth LANDMAP helpu cynlluniau datblygu lleol i nodi cymeriad a chyd-destun eu hardaloedd ac esbonio sut y dylid mynd i'r afael â'r gwaith o ddylunio cynlluniau. Yn y dyfodol, bydd datganiadau ynghylch adnoddau naturiol a strategaethau ynghylch seilwaith gwyrdd, sy'n seiliedig ar ardaloedd, yn cynnig cyfleoedd i fynegi'n ofodol y swyddogaethau a'r amryw fanteision mewn lleoedd ac ardaloedd.

Yn yr un modd, yn achos tirweddau dynodedig, mae'r Cynlluniau Rheoli perthnasol a gaiff eu paratoi gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau.

C3	Canllawiau Cynllunio Atodol	X
	A yw cynlluniau ar gyfer ardaloedd a safleoedd penodol, megis uwchgylluniau, yn cael eu defnyddio i gynllunio datblygiadau allweddol mewn modd cadarnhaol? A allwch chi roi enghreifftiau o arferion da yn hyn o beth?	
	Ydyn	
	Dim un o'r rhain	X
	Nac ydyn	

C3	Sylwadau Pellach
Er nad yw'n enghraifft o uwchgyllun, mae'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol ACA Caeau Mynydd Mawr yn Sir Gaerfyrddin, sy'n ymdrin â bioamrywiaeth a gwaith datblygu, yn enghraifft o arfer da o safbwynt Canllawiau Cynllunio Atodol.	

C4	Canllawiau Cynllunio Atodol	X
	A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru baratoi canallwiau ymarferol ar sut i ddadansoddi safleoedd fel y bo modd datblygu cynigion a fydd wedi'u dylunio'n dda?	
	Ydw	X
	Dim un o'r rhain	

Nac ydw	
----------------	--

C4	Sylwadau Pellach	
<p>Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru baratoi canllawiau ymarfer ar sut i ddadansoddi safleoedd er mwyn ymateb i gyd-destun safle a llywio cynigion sydd wedi'u dylunio'n dda. Yn ogystal ag anelu'r hyfforddiant at y diwydiant datblygu ac awdurdodau cynllunio lleol, dylai'r hyfforddiant gael ei anelu hefyd at ymgylgoreion statudol.</p> <p>Gallai hynny lywio Cynlluniau Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Atodol a thrafodaethau cyn ymgeisio ynghylch cynigion datblygu.</p>		

C5	Rhoi Mwy o Bwyslais ar Waith Rhagarweiniol / Trafodaethau Cyn-ymgeisio	
<p>Sut y gallwn ni sicrhau bod trafodaethau cyn-ymgeisio yn helpu i wella dyluniad datblygiadau ac yn sicrhau mynediad cynhwysol? Allwch chi roi enghreifftiau o arferion da yn hyn o beth?</p>		
<p>Byddai paratoi a datblygu egwyddorion dylunio da er mwyn iddynt lywio trafodaethau cyn ymgeisio'n helpu i integreiddio ansawdd y dylunio ar ddechrau'r gwaith o ddatblygu prosiect, yn hytrach na'i fod yn fater a godir yn ystod cam diweddarach yn y broses ddatblygu.</p>		

C6	Ceisiadau Cynllunio	
<p>Heblaw am ragor o hyfforddiant neu ganllawiau ymarferol pellach, pa bethau eraill fyddai'n eich helpu i asesu ansawdd y dylunio mewn cynigion cynllunio?</p>		
<p>Dim sylw.</p>		

C7	Mynediad	X
<p>A ydych yn cytuno y bydd y newidiadau i'r ffurflen 1APP yn fodd i sicrhau bod materion yn ymwneud â mynediad cynhwysol yn cael eu hystyried mewn cynigion datblygu?</p>		
Ydw		
Dim un o'r rhain		
Nac ydw		X

C7 Sylwadau Pellach

Fel rheol, caiff y ffurflen 1APP ei llenwi ar ôl i gynllun gael ei ddylunio a phan fydd cais yn cael ei gyflwyno am ganiatâd cynllunio. Felly, rydym yn teimlo na fyddai newidiadau i'r ffurflen yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â mynediad cynhwysol yn cael eu hystyried mewn cynigion datblygu.

C8 Mynediad

Pa wybodaeth neu gamau eraill fyddai'n cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i asesu cynigion cynllunio o ran mynediad cynhwysol?

Dim sylw.

C9 Comisiwn Dylunio Cymru a'r Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio

Sut y gall y Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio a Chomisiwn Dylunio Cymru brif ffrydio dylunio da a mynediad cynhwysol yn y broses gynllunio

Bydd canllawiau ymarfer ar ddylunio, sy'n ymwneud â rheoli datblygu ar lefel genedlaethol, ynghyd â sylfaen dystiolaeth gyson ynghylch cymeriad a hynodrwydd, yn darparu cyd-destun ar gyfer prif ffrydio dylunio da yn y broses gynllunio. Gall y Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio a Chomisiwn Dylunio Cymru, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid cenedlaethol, sectorau ac ymgylgoreion statudol eraill, helpu i hwyluso hyfforddiant ac adnoddau cymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Gallai rôl paneli adolygu dylunio ar lefel ranbarthol gael ei hystyried yn ddull o ddarparu a datblygu capasiti ar lefel is-genedlaethol.

C10 Sgiliau Dylunio ac Arferion Da

Sut y gallwn ni barhau i wella sgiliau dylunio swyddogion ac aelodau'r awdurdodau lleol a pha hyfforddiant penodol arall sydd ei angen?

Gweler yr ymateb i gwestiwn 9 uchod.

Mae'n bwysig bod gan bawb sy'n ymwneud â'r broses ddatblygu'r sgiliau dylunio angenrheidiol, sy'n benodol yn cynnwys dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gymeriad a chyd-destun lleol.

Bydd yn bwysig bod y broses ddylunio a gwneud penderfyniadau'n deall heriau'r dyfodol ac yn ymateb iddynt, sef y newid yn yr hinsawdd, defnyddio adnoddau'n

effeithlon a rheoli adnoddau naturiol, colli bioamrywiaeth, sicrhau diogelwch ac effeithlonrwydd ynni ac ymdrin â llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hynny'n golygu dulliau gwahanol o weithio, pwyslais ar ymyrryd a chyflawni nifer o amcanion, a chanlyniadau sy'n gofyn am setiau gwahanol a newydd o sgiliau.

C11	Sgiliau Dylunio ac Arferion Da	X
	A oes lle i awdurdodau cynllunio lleol weithio mewn ffordd wahanol neu i gydweithredu mwy ar faterion yn ymwneud â dylunio? A ydych yn gwybod am unrhyw weithgarwch o'r fath sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd?	
	Oes	
	Dim un o'r rhain	X
	Nac oes	

C11	Sylwadau Pellach
Gweler yr ymateb i gwestiwn 9.	
Gall paneli adolygu dylunio ar lefel ranbarthol helpu i gynnal capasiti gan sicrhau dull cyson o ymdrin â chanllawiau dylunio ac uwchgynlluniau. Mae'r gwaith a wnaed ar y cyd gan Plymouth a De Hampshire ar Ganllaw Dylunio Sherford yn enghraifft o fanteision dull gweithredu o'r fath.	
Mae'r Canllaw Dylunio Cynaliadwy a baratowyd gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn enghraifft o gydweithredu ar lefel genedlaethol, ac mae'r ddogfen 'Working with a Changing Climate - A Guide to adaptation in the Clwydian Range and Dee Valley AONB' yn enghraifft o fenter leol sy'n ceisio darparu safbwynt tymor hwy ar ganlyniadau prosesau gwneud penderfyniadau.	

C12	Sgiliau Dylunio ac Arferion Da
	A allwch chi amlinellu arferion da, yng Nghymru neu tu hwnt, mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion uchod, sy'n hyrwyddo a/neu'n arwain at ddylunio da a mynediad cynhwysol?
Gweler yr ymateb i gwestiwn 11.	

C13	Datganiadau Dylunio a Mynediad	X
	A fyddai unrhyw fanteision o gadw'r gofyniad i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad ar gyfer ceisiadau penodol?	
	Byddai	
	Dim un o'r rhain	X
	Na fyddai	

C13	Sylwadau Pellach
<p>Er y gall Datganiad Dylunio a Mynediad fod yn feichus ar gyfer mân geisiadau, gall fod yn adnodd defnyddiol mewn ardaloedd sensitif megis tirweddau dynodedig er mwyn dangos proses esblygol datblygiad a'r rhesymau dros ddewis y dyluniad terfynol. O'i ddefnyddio'n gywir, dylai Datganiad Dylunio a Mynediad olygu bod gwaith dylunio'n cael ei ystyried yn gynharach yn y broses ddatblygu gan arwain at ganlyniadau gwell i'r amgylchedd.</p> <p>Yn ogystal â bod yn adnodd defnyddiol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, gall Datganiad Dylunio a Mynediad fod yn adnodd cyfathrebu defnyddiol hefyd ar gyfer ymgynghoreion ac aelodau'r cyhoedd.</p>	

C14	Datganiadau Dylunio a Mynediad	X
	A ddylid dileu'r gofyniad gorfodol i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad o'r is-ddeddfwriaeth? Rhwch resymau dros eich ateb.	
	Dylid	
	Dim un o'r rhain	
	Na ddylid	X

C14	Sylwadau Pellach
Gweler yr ymateb i gwestiwn 13.	

C15	Unrhyw Sylwadau Eraill	
	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych am godi unrhyw faterion cysylltiedig neu awgrymu ffyrdd o wella dylunio drwy'r system gynllunio, byddem yn falch o gael gweld yr hyn sydd gennych i'w ddweud.	

Sut i ymateb

Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn **16 Ionawr 2015** mewn unrhyw un o'r ffyrdd a ganlyn:

E-bost	Post
Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk / planconsultations-a@wales.gsi.gov.uk [Rhowch 'Ymgynghoriad ar Ddylunio yn y Broses Gynllunio' fel pwnc]	Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: Ymgynghoriad ar Ddylunio Y Gangen Polisi Cynllunio Yr Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, mae croeso ichi gysylltu â:

E-bost: planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: Max Hampton ar 02920 82 6166